**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00AM AR 21 MEHEFIN 2023 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mrs Dianne Bevan; Mr Frank Cuthbert; Mr Michael Imperato; Ms Ginger Wiegand.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Christian Lovatt (Cymorth Tîm); Miss Caitlin Lowry (Swyddog Cymorth Tîm).

**Amser Dechrau: 10:31**
**Amser Gorffen: 12:31**

**1. Datganiadau Buddiannau**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd**

2.1. Croesawodd y Cadeirydd Ms Ginger Wiegand sy'n ymuno â'r Comisiwn fel ei 5ed Comisiynydd.

2.2. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn am gynnydd y swyddogaethau estynedig. Nid yw bwrdd y rhaglen wedi cyfarfod ers cyfarfod mis Mai ac mae'r pwyslais ar lenwi'r gofrestr risg a'r Ddogfen Cychwyn Prosiect (PID).

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 24 Mai 2023**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2023 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1)** Ni chafodd y Comisiwn unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth rhwng 13 Mai 2023 a 13 Mehefin 2023.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd** y bydd yr eitem hon yn cael ei thrafod o dan eitem agenda 6.

**4.4.** **(Mater 3) Nodwyd** bod y mater hwn wedi cael ei drafod yn y cyn-gyfarfod.

**4.5.** **(Mater 4) Nodwyd** y bydd yr eitem hon yn cael ei thrafod o dan Unrhyw Fater Arall.

**4.6.** **(Mater 5) Nodwyd** bod hyn wedi cael ei gyflwyno i LlC.

**4.7.** **(Mater 6) Nodwyd** nad oes diweddariad pellach ar y mater hwn. Mae'r Comisiwn yn aros am ymateb gan LlC o hyd.

**4.8.** **(Mater 7) Nodwyd** bod yr holiadur ymchwil wedi cyrraedd y cam drafft terfynol ac y caiff ei ddosbarthu cyn hir.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

**5.1.** Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Comisiwn ar gynnydd Bwrdd y Rhaglen Bontio.

- Mae'r PID a'r gofrestr risg ar gam cynnar ac mae'n bwysig bod y meysydd sydd y tu allan i gwmpas y Bwrdd Pontio yn cael eu nodi'n glir.
- **Nodwyd** y disgwylir i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno yn yr hydref a bod yr amserlen yn dynn.
- Byddai angen i'r Comisiwn ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â'r swyddogaethau estynedig.
- **Nodwyd** bod angen i'r Comisiwn chwilio am adnoddau mewnol i gynorthwyo'r Prif Weithredwr â'r gwaith pontio y mae angen i'r Comisiwn ei wneud.

**5.2.** **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i edrych ar y cyllidebau presennol ac amlygu adnoddau i gefnogi'r gwaith pontio.

## 6. Y Flaenraglen Waith

**6.1.** Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar gynnydd y rhaglen.

- Amlygodd y Prif Weithredwr y bydd cost Arolwg 1af y Senedd yn debyg i gost yr Arolwg Seneddol a bod y Comisiwn mewn sefyllfa i reoli'r lefelau cyllid uwch.

- Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) sy'n ofynnol ar gyfer y Bil Diwygio Etholiadol yn fwy cymhleth na Bil Diwygio'r Senedd a byddai angen i waith paratoi gael ei wneud yn ystod yr haf yn hytrach nag aros i'r cais ddod gan LIC.
- Byddai cyfarfod nesaf Bwrdd Gweithredu Diwygio'r Senedd yn digwydd ym mis Gorffennaf.

## 7. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 21 Mehefin 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**7.2.** **Nodwyd** gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni eu bod bellach yn ystyried cynigion drafft ar gyfer Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg.

**7.3.** **Nodwyd** gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni bod opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer Arolwg Cymunedol Caerffili.

**7.4.** **Nodwyd** y bydd Arolwg Cymunedol Sir Benfro yn dechrau yn dilyn cyfarfodydd cychwynnol ar 4 Medi 2023.

**7.5.** **Nodwyd** gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni nad yw Arolwg Cymunedol Abertawe wedi dechrau eto.

**7.6.** **Nodwyd** y byddai Gwynedd yn anelu at raddfa amser yn gynnar yn 2024 a bod Sir y Fflint yn parhau i gynnal trafodaethau'n fewnol ynglŷn ag Arolwg Cymunedol yn y dyfodol.

**7.7.** **Nodwyd** bod Torfaen wedi dechrau eu harolwg cymunedol eu hunain ond bod arnynt angen cyngor ychwanegol. **Nodwyd** hefyd fod Blaenau Gwent yn bwriadu cynnal arolwg cymunedol.

## 8. Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg – Ystyried Cynlluniau Drafft dyddiedig 12 Mai 2023 gan y Rheolwr Arolygon.

**8.2.** Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cychwyn ei phroses sicrhau ansawdd ar gyfer yr adroddiad.

**8.3.** **Nodwyd** y byddai'r Comisiwn yn anelu at gyhoeddi ym mis Medi.

**8.4.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn parhau i aros am ymateb gan Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â rhai o'r enwau arfaethedig.

**8.5.** Llongyfarchodd y Comisiynwr y tîm ar ansawdd yr adroddiad.

## 9. Arolwg Cymunedol Caerffili

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Arolwg Cymunedol Caerffili – Ystyried Cynlluniau Drafft dyddiedig 21 Mehefin 2023 gan y Swyddog Arolygon.

**9.2.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Tref Gorllewin Rhisga a Chymuned Dwyrain Rhisga. Dewiswyd Opsiwn 3 gan y Comisiwn (cyfeiriwch at y templedi Safon Benderfynu (DMS) i gael rhagor o wybodaeth).

**9.3.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Cymunedau Bedwas, Trethomas a Machen a Rhydri. Dewiswyd Opsiwn 4 gan y Comisiwn (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**9.4.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Cymunedau Gelligaer a Nelson. Dewiswyd Opsiwn 3 gan y Comisiwn (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**9.5.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Cyngor Tref Caerffili a Chyngor Cymuned y Fan. Dewiswyd Opsiwn 4 gan y Comisiwn (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**9.6.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Cymunedau Bargoed a Phengam. Dewiswyd Opsiwn 3 gan y Comisiwn (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**9.7.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Cymunedau Cefn Fforest a Phengam. Dewiswyd Opsiwn 1 gan y Comisiwn (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**9.8.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Cymunedau Pontllanfraith a Maesycwmer. Dewiswyd Opsiwn 3 gan y Comisiwn (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**9.9.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Cymuned Rhymni. Dewiswyd Opsiwn 1 gan y Comisiwn (cyfeiriwch at y templedi DMS i gael rhagor o wybodaeth).

**9.10.** Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn llunio'r adroddiad cynigion drafft er mwyn i'r Comisiwn ei ystyried mewn cyfarfod o'r Comisiwn yn y dyfodol.

**9.11.** **Nododd** y Comisiwn ei ddiolch i'r Tîm Arolygon am drylwyredd nodiadau arolwg Caerffili.

**10. Adroddiad ar Gyllideb 2023-24**

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i gyllideb 2023-24 dyddiedig 21 Mehefin 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**10.2.** **Nodwyd** y bu tanwariant o £10k ar gostau staff ar 31 Mai 2023.

**10.3.** **Nodwyd** y bu sawl achos o orwariant ym mis Mai 2023, ond bod y rhan fwyaf yn ymwneud â gwariant a fyddai'n cael ei adennill oddi wrth awdurdodau lleol yn rhan o gostau arolygon cymunedol. Roedd y gorwariant mawr o £3k yn y gyllideb hyfforddi staff o ganlyniad i fynychu cyfarfod blynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ond fe ddylai cronfeydd dros ben mewn cyllidebau eraill dalu am hyn. At ei gilydd, disgwyliwyd y byddai'r holl gyllidebau a orwariwyd yn mantoli eto yn ystod y misoedd i ddod.

**11. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg**

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Rheoli Risg dyddiedig 21 Mehefin 2023 gan y Rheolwr Cyllid. Nid oedd y Comisiwn o'r farn bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**11.2.** **Cytunwyd** y byddai angen i'r risgiau sy'n gysylltiedig â phontio i'r flaenraglen waith newydd gael eu hasesu a'u hadolygu. Cynigiwyd y dylai hyn gael ei wneud gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

**11.2.1.** **Gweithredu:** Yr ARAC i adolygu risgiau pontio i'r rhaglen waith newydd yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

**12. Calendr Digwyddiadau**

**12.1.** **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

**12.2.** **Nodwyd** y bydd y Digwyddiad Ymylol yng nghynhadledd CLILC yn cael ei arwain gan ORS.

**13. Unrhyw Fater Arall Perthnasol**

**13.1.** Rhoddodd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni drosolwg ac arddangosiad byr o'r porth ymgynghori newydd.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 20 Gorffennaf 2023**